# Uned 12: Cynhyrchu Da Byw Amaethyddol

**Côd yr Uned:** **L/600/9129**

**FfCC Lefel 3:** **BTEC Cenedlaethol**

**Gwerth o ran credydau:** **10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:** **60**

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno sgiliau a gwybodaeth i ddysgwyr y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu da byw amaethyddol, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae datblygu dealltwriaeth o sut caiff bwyd ei gynhyrchu yn allweddol wrth sicrhau bod systemau cynhyrchu yn ystyried lles anifeiliaid, anghenion defnyddwyr ac economeg gadarn ar gyfer y ffermwr. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu ystod o sgiliau ymarferol ac astudio'r egwyddorion sylfaenol er mwyn galluogi'r dysgwyr i weithio'n gymwys o fewn ystod eang o systemau cynhyrchu da byw sy'n bodoli yn y Deyrnas Unedig heddiw.

Bydd yr uned yn trafod y prif agweddau sy'n ymwneud ag unrhyw system cynhyrchu da byw, yn benodol dethol brîd, hwsmonaeth anifeiliaid, bridio, porthi, iechyd a lles. Mae'r uned yn cynnwys yr holl rywogaethau mamaliaid fferm cyffredin, a gallai daearyddiaeth leol ddylanwadu ar ba rywogaethau yw'r prif ffocws wrth gyflwyno'r uned. Fodd bynnag, disgwylir cyflwyniad cyffredinol yn trafod yr holl rywogaethau.

Bydd y dysgwyr yn adolygu'r prif systemau cynhyrchu sy'n bodoli yn y Deyrnas Unedig ar draws rhywogaethau mamaliaid fferm cyffredin. Byddant yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ac egwyddorion sylfaenol bridio a iechyd anifeiliaid, ynghyd â dehongli gwybodaeth am ddethol stoc bridio. Bydd y dysgwyr yn casglu tystiolaeth mewn sefyllfa ymarferol, felly bydd mynediad i dda byw fferm addas, naill ai mewn gwersi ffurfiol neu brofiad gwaith, yn hanfodol i ddysgwyr gwblhau'r uned hon. Dylai'r dysgwyr hefyd allu defnyddio'u gwybodaeth a datblygu sgiliau da byw fferm ymarferol.

Rhagwelir y bydd sgiliau ymarferol yn cael eu datblygu trwy waith fferm arferol a gyflawnir dros gyfnod o amser gan gynnwys y gwahaniaethau tymhorol wrth gynhyrchu da byw. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar borthi da byw er mwyn mwyafu cynhyrchu. Trwy gydol cyflwyno'r uned hon, rhaid pwysleisio pwysigrwydd diogelwch y dysgwyr a lles anifeiliaid.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Ddeall systemau cynhyrchu da byw

2 Gwybod am egwyddorion iechyd a bridio anifeiliaid sy’n cael eu cynhyrchu

3 Gallu cyflawni sgiliau cynhyrchu da byw cyffredin

4 Gallu cynllunio cynhyrchu da byw.

 © Pearson Education Limited 2019

# Cynnwys yr uned

## 1 Deall systemau cynhyrchu da byw

*Systemau eidion:* adnabod brîd; systemau cynhyrchu cyffredin ee grawn/eidion tarw dwys, 18 mis lled-ddwys, buches eidion sugno estynedig, cynhyrchu gwartheg storio; cyfraddau twf targed; amseroldeb gweithgareddau hwsmona; marchnadoedd terfynol, gofynion y farchnad a dosbarthu carcasau; costau cynhyrchu; gofynion lletya; dulliau marchnata cynnyrch

*Systemau llaeth:* adnabod brîd; systemau cynhyrchu cyffredin ee systemau mewnbwn uchel allbwn uchel, systemau cynhyrchu cost isel, blwyddyn buwch odro, amlder godro, patrwm lloia; maint a graddfa'r diwydiant; dewisiadau adnewyddu ee magu cartref, buches odro yn unig (flying herd); systemau lletya; dulliau marchnata cynnyrch

*Systemau moch:* adnabod brîd; systemau cynhyrchu cyffredin ee systemau dwys ac awyr agored, unedau bridio, unedau magu, unedau gorffennu, unedau integredig; cylchred cynhyrchu moch; cyfraddau twf targed; ffactorau hwsmonaeth allweddol; porchella; diddwyno; atgenhedlu; costau cynhyrchu; systemau lletya; dulliau marchnata cynnyrch

*Systemau defaid:* adnabod brîd; systemau cynhyrchu cyffredin ee defaid yr iseldir, yr ucheldir a mynydd, blwyddyn bugail, dethol stoc, paratoi mamogiaid a hyrddod, amseroldeb cynhyrchu ŵyn, y farchnad derfynol, dosbarthu carcasau; dulliau marchnata cynnyrch.

## 2 Gwybod am egwyddorion iechyd a bridio anifeiliaid sy'n cael eu cynhyrchu?

*Bridio dethol:* dethol anifeiliaid addas i fridio ee nodweddion benyw a gwryw manteisiol, gwerthoedd bridio a amcangyfrifir, dehongli data'r tad, cofnodion cynhyrchu, gallu trosglwyddo a ragwelir, amseroldeb bridio, paratoi stoc bridio benyw a gwryw

*Bridio anifeiliaid:* cylchredau atgenhedlu ar gyfer dosbarthiadau cyffredin o dda byw fferm, ee pwysigrwydd swyddogaeth atgenhedlu da, arwyddion rhidio, cymhorthion rhidio, canfod paru, cofnodion bridio; technegau atgenhedlu ee Ofylu Lluosog a Throsglwyddo Embryo (MOET), ymhadu artiffisial (AI), paru naturiol, hormonau atgenhedlu

*Iechyd anifeiliaid:* pum angen yn ymwneud â phob dosbarth da byw; adnabod arwyddion iechyd a chlefydau cyffredin; atal clefydau a pharasitiaid ee rhaglenni brechu, dulliau triniaethau cyffredin i atal lledaenu clefydau; milheintiau cyffredin

*Rhaglenni iechyd:* adolygu dewisiadau ee bioddiogeledd, ffynhonnell stoc, cwarantin, brechu, atal parasitiaid, clefydau, technegau nodi, arferion milfeddygol, protocolau iechyd

## 3 Gallu cyflawni sgiliau cynhyrchu da byw cyffredin

*Porthiant a dŵr:* darparu porthiant a dŵr digonol a phriodol ar gyfer amrywiaeth o anifeiliaid fferm; deddfwriaeth sy'n rheoli iechyd a lles anifeiliaid

*Gwirio iechyd stoc:* gwirio iechyd stoc yn arferol a nodi arwyddion cyffredin iechyd a chlefydau; argymhellion priodol ar gyfer anifeiliaid sy'n dangos arwyddion afiechyd; deddfwriaeth sy'n rheoli iechyd a lles anifeiliaid

*Llety addas:* lle, glaswellt, awyru, mynediad i fwyd a dŵr priodol i anghenion yr anifail; adolygu'r dewisiadau lletya sydd ar gael yn unol ag argymhellion lle, codau ymarfer; deddfwriaeth sy'n rheoli iechyd a lles anifeiliaid

*Tasgau stoc:* tasgau stoc arferol gan barchu diogelwch a lles anifeiliaid fel yr argymhellir mewn codau ymarfer lles anifeiliaid ee trimio traed, digornio, disbaddu, brechu, rheoli parasitiaid, torri caglau, chwistrellu; cyfarpar amddiffyn personol (PPE); iechyd a diogelwch; deddfwriaeth sy'n rheoli iechyd a lles anifeiliaid

*Cofnodion cynhyrchu:* cofnodion cynhyrchu cyffredin ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau da byw arferol ee cyfraddau twf, pwysau anifeiliaid, triniaeth feddygol, cofnodion paru a bridio, pasportau, EID (Rhif adnabod electronig), cofnodion symud

## 4 Gallu cynllunio cynhyrchu da byw

*Cynllunio cynhyrchu:* dewisiadau adolygu ee dethol brîd, cyfraddau stocio, tymoroldeb cynhyrchu, porthiant amgen, cynhyrchu i fodloni gofynion y farchnad

*Gofynion porthi:* ystod o borthiant priodol ar gyfer dosbarthiadau da byw gwahanol ee porthiant, dwysfwyd, brasfwyd, bwyd wedi'i brosesu, sgîl-gynnyrch, dadansoddiadau porthi a gwerth maetholion porthiant; symiau priodol gofynnol ar gyfer gwahanol gamau o'r system gynhyrchu ee stoc ifanc, magu, tyfu, llaetha, gorffennu; prosesau treulio a dognau sylfaenol ar gyfer dosbarthiadau da byw gwahanol; bwydo yn ystod cyfnod beichiogrwydd, cyn ac wedi rhoi genedigaeth; gofynion fitaminau a mwynau


Hydref 2019 © Pearson Education Limited 2019

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 esbonio'r prif systemau cynhyrchu eidion, llaeth, moch a defaid [YA] | | |
| Ll2 gwerthuso systemau cynhyrchu eidion, llaeth, moch a defaid | T1 esbonio'r amrediad o systemau gorffennu a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer amrywiaeth o dda byw | Rh1 adolygu'r dulliau o werthu a marchnata da byw penodol |
| Ll3 trafod ffactorau sy'n pennu'r dewis o system cynhyrchu da byw [MC] | | |
| Ll4 disgrifio hwsmonaeth da byw trwy gydol y cylchredau bridio/cynhyrchu | | |
| Ll5 disgrifio tasgau gwasanaeth cynhyrchu da byw arferol ac anarferol [HR] | T2 esbonio dull bridio anifail da byw a ddewiswyd | Rh2 gwerthuso amrywiaeth o ddulliau bridio sydd ar gael i'r ffermwr o ran lles anifeiliaid ac effeithiolrwydd |
| Ll6 amlinellu gwiriadau iechyd ar gyfer cynhyrchu da byw | | |
| Ll7 disgrifio prif achosion clefydau a'r mesurau i'w cymryd | T3 esbonio, yn fanwl, fesurau bioddiogeledd ar leoliad fferm benodol | |

 © Pearson Education Limited 2019

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll8 cyflawni tasgau gwasanaeth cynhyrchu da byw arferol ac anarferol yn ddiogel i fodloni amcanion penodol [CE] | | |
| Ll9 perfformio gweithdrefnau hwsmonaeth yn ddiogel ar wartheg eidion a godro, defaid a moch [GT] | T4 cynnal cofnodion cywir o weithdrefnau hwsmonaeth | |
| Ll10 cymhwyso rheoliadau a deddfwriaeth perthnasol i gynhyrchu da byw yn ddiogel | | |
| Ll11 cynllunio cynhyrchu gwartheg eidion a defaid | T5 esbonio amseroldeb a thymoroldeb tasgau cynhyrchu da byw ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau. | Rh3 disgrifio'r ffactorau sy'n pennu'r pris terfynol gaiff ffermwr am amrywiaeth o dda byw fferm. |
| Ll12 disgrifio gofynion systemau magu a gorffennu | | |
| Ll13 cynllunio rhaglenni iechyd ar gyfer systemau cynhyrchu eidion, llaeth, moch a defaid. | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | YA - ymholwyr annibynnol |
| | MC - meddylwyr creadigol |
| | DM - dysgwyr myfyriol |
| | GT - gweithwyr tîm |
| | HR - hunan-reolwyr |
| | CE - cyfranogwyr effeithiol |

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Mae gan y tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon gyfle i ddefnyddio ystod mor eang o dechnegau â phosib. Byddai darlithoedd, trafodaethau, cyflwyniadau seminar, ymweliadau safle, gwaith ymarferol gyda da byw o dan oruchwyliaeth, ymchwil gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a/neu adnoddau'r llyfrgell a defnyddio profiad personol a/neu o fewn y diwydiant yn addas. Dylai'r cyflwyno ysgogi, ysbrydoli, addysgu ac ennyn brwdfrydedd y dysgwyr.

Dylid monitro lleoliadau gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y profiad dysgu.  Byddai'n ddefnyddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn ymwybodol o ofynion yr uned cyn cyflawni unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd. Er enghraifft, mae'n bosib bydd gan y dysgwyr gyfle i gyflawni tasgau cysylltiedig â phorthi, bridio a chynnal iechyd da byw, a dylent ofyn am gofnodion arsylwi a/neu ddatganiadau tystion yn dystiolaeth ar gyfer hyn. Rhoddir arweiniad ar sut i ddefnyddio cofnodion arsylwi a datganiadau tystion ar wefan Edexcel (www.edexcel.com).

Pa ddulliau cyflwyno bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod y tiwtoriaid yn pwysleisio pwysigrwydd lles anifeiliaid a'r angen am gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol.

Rhaid pwysleisio ac atgyfnerthu materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gweithio gyda da byw, cynnyrch milfeddygol a pheiriannau yn rheolaidd. Rhaid cyflawni asesiadau risg cyn unrhyw weithgareddau ymarferol, a rhaid darparu cyfarpar amddiffyn personol (PPE) digonol.

Dylai tiwtoriaid ystyried cyfuno'r cyflwyno, yr astudio preifat a'r asesu ar gyfer yr uned hon gydag unedau ac offer asesu perthnasol eraill mae'r dysgwyr yn eu dilyn fel rhan o'u rhaglen astudio.

Mae deilliant dysgu 1 yn debygol o gael ei gyflwyno drwy ddarlithoedd ffurfiol, trafodaethau, ymweliadau â ffermydd ac ymchwil annibynnol gan y dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn astudio amrywiaeth o systemau cynhyrchu sydd ar gael ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau da byw, gan gynnwys stoc bridio a gorffennu. Dylid deall targedau ac amseriad perfformiad da ar gyfer y systemau cynhyrchu amrywiol. Ymweliadau â busnesau fferm - megis unedau godro, eidion, defaid neu foch - i arsylwi systemau cynhyrchu effeithlon ar waith er mwyn gwneud y pwnc yn berthnasol i'r dysgwyr. Gallai'r dysgwyr hefyd elwa o ymweliad â marchnad da byw i adolygu'r meini prawf ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid.

Gellir cyflwyno deilliant dysgu 2 gan ddefnyddio cyfarwyddyd ymarferol neu ymweliadau fferm, lle bydd gan y dysgwyr gyfle i fod yn rhan o ofalu am epil newydd-anedig a'r fenyw fridio. Gellir defnyddio darlithoedd a thrafodaethau i ategu'r profiad ymarferol. Bydd cyfleoedd i arsylwi technegau bridio anifeiliaid yn hanfodol ar gyfer dysgwyr er mwyn cwblhau'r deilliant dysgu hwn.

Rhaid cyflawni deilliant dysgu 3 trwy gwblhau'r tasgau ymarferol a ddefnyddiwyd i ddatblygu sgiliau mewn sefyllfa fferm, naill ai yn fferm y ganolfan ei hun neu trwy leoliad gwaith. Rhaid bod da byw digonol ar gael er mwyn i waith stoc arferol fod yn realistig, a'i gyflawni mewn sefyllfa lle gellir monitro a goruchwylio. Wrth gyflwyno, bydd angen rhoi ystyriaeth ddyledus i oedran y dysgwyr a chydymffurfiaeth â rheoliadau a chodau ymarfer lles anifeiliaid.

Gallai deilliant dysgu 4 fod yn yr un fformat â deilliant dysgu 2, gan ddefnyddio gweithgaredd ymarferol neu ymweliadau fel dull hanfodol o gyflwyno, er enghraifft i felin borthiant neu ganolfan ddosbarthu leol. Bydd mynediad at fwydydd fferm cyffredin a meddalwedd dogni sylfaenol yn gwella'r cyflwyno.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad i'r uned: nodau, amcanion a dulliau cyflwyno/asesu. |
| Darlith a gweithgareddau ymchwil i'r prif systemau cynhyrchu da byw ar gyfer gwartheg godro ac eidion, defaid a moch, adolygu systemau cynhyrchu cyffredin, diffiniadau, terminoleg, amseru a chylch digwyddiadau. |
| **Aseiniad 1: Systemau Cynhyrchu Ffermio** (Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1)<br><br>Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu adroddiad a/neu gyflwyniad i ddarparu gwybodaeth am y prif systemau cynhyrchu ar gyfer dosbarthiadau da byw. |
| Ymweld â marchnad da byw neu ladd-dy ac adolygu gwerthoedd carcas/stoc a sut caiff gwerth ei asesu – asesiad. |
| Adolygu dulliau a thechnolegau bridio - trafod buddion y ddau - trafod rheoli hormonol atgenhedlu, dethol stoc bridio gwryw a benyw. |
| Paratoi/nodi stoc bridio - gweithgaredd ymarferol wrth ddethol stoc ac arsylwi rhidio a gweithdrefnau paru/AI |
| **Aseiniad 2: Paratoi ar gyfer Bridio Da Byw** (Ll4, Ll5, Ll6, Ll11, T2, Rh2)<br><br>Cyflwyniadau gan y dysgwyr am broblemau clefydau |
| Adolygiad asesiad cyfreithiau lles da byw a chreu taflen yn egluro cyfreithiau i gynulleidfa heb fod yn gysylltiedig â ffermio Ll10 |
| **Aseiniad 3: Rheoli Clefydau** (Ll7, Ll11, Ll13, Rh3) |
| Darlith am glefydau a phwysigrwydd bioddiogeledd ar ffermydd. Dysgwyr yn ymchwilio i amrediad o glefydau anifeiliaid fferm cyffredin o ran adnabod symptomau, a strategaethau atal a thrin |
| **Aseiniad 4: Gwaith Stoc Ymarferol** (Ll8, Ll9, T5)<br><br>Cyflawni tasgau stoc arferol ar fferm da byw a chynnal cofnodion cywir |
| Cyflawni tasgau cynhyrchu arferol ymarferol i ddatblygu sgiliau hwsmonaeth da byw ar draws amrywiaeth o dda byw fferm<br><br>– gweithio ynghyd â thiwtoriaid/staff fferm profiadol i ddatblygu sgiliau |
| Adolygu porthiant cyffredin a'r symiau a roddir yn arferol i dda byw trwy gydol y cylchred bywyd cynhyrchu. Adolygu'r rhain o safbwynt systemau treulio anifeiliaid a dulliau cadw a phrosesu porthiant cyffredin |
| **Aseiniad 5: Awdit Lles** (Ll10, T3) |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| Awdit go iawn neu am astudiaeth achos o ddarpariaeth lles anifeiliaid un fferm |
| **Aseiniad 6: Porthi Da Byw** (Ll12, T4) nodi amrediad o borthiant da byw cyffredin a darparu gwybodaeth am eu maeth – creu dogn gyffredin ar gyfer anifail penodol |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

I gyflawni gradd llwyddo, rhaid i'r dysgwyr fodloni'r 13 maen prawf a restrir yn y grid meini prawf asesu a graddio.

Ar gyfer Ll1, Ll2 ac Ll3, rhaid i'r dysgwyr ddarparu gwybodaeth am amrywiaeth o systemau cynhyrchu cyffredin ar gyfer ystod o dda byw fferm. Disgwylir i'r dysgwyr amlinellu systemau cynhyrchu, targedau nodweddiadol y dylid eu cyflawni a therfynau amser ar gyfer cyflawni'r targedau hyn. Rhaid cynnwys tymoroldeb, lle y bo'n briodol, yn enwedig ar gyfer da byw pori. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad darluniadol gyda nodiadau (gan ddefnyddio meddalwedd priodol neu daflunydd o bosib), poster wedi'i anodi neu brosiect.

Ar gyfer Ll4, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r hwsmonaeth cylchredau bridio/cynhyrchu da byw ar gyfer o leiaf ddau anifail da byw gwahanol. Ar gyfer Ll5, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r tasgau sy'n ofynnol wrth baratoi'r anifeiliaid hyn i'w bridio. Gellir asesu hyn trwy holi llafar mewn sefyllfa ymarferol, llunio adroddiad neu asesiad ymarferol uniongyrchol.

Mae Ll6 ac Ll7 yn gofyn bod y dysgwyr yn darparu gwybodaeth am wiriadau iechyd anifeiliaid da byw, prif achosion clefydau a mesurau y gellir eu cymryd i'w hatal. Rhaid i'r dysgwyr ddangos eu bod yn gallu adnabod arwyddion ac achosion problemau iechyd posib ar gyfer da byw. Gall y tiwtor asesu hyn yn uniongyrchol yn ystod gweithgareddau ymarferol i gyflawni gwiriadau iechyd, ynghyd â holi llafar, neu drwy brosiect. Gellid cysylltu'r dystiolaeth gyda'r hyn a ddarparwyd ar gyfer Ll13.

Mae Ll8 ac Ll9 yn gofyn bod y dysgwyr yn cyflawni dyletswyddau stoc cyffredin gyda dosbarthiadau da byw gwahanol. Gellid asesu trwy ddangos gallu wrth gyflawni'r tasgau, ynghyd â holi llafar i gadarnhau bod yno wybodaeth sylfaenol. Gallai'r dystiolaeth fod yn ddatganiadau tystion gan diwtoriaid neu ddarparwyr profiad gwaith.

Mae Ll10 yn gofyn bod y dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a’r rheoliadau perthnasol sy'n gymwys i dda byw fferm. Gallai hyn fod drwy greu poster sy'n dangos y prif ddeddfwriaeth sy'n gymwys i les da byw neu drwy sesiwn holi ac ateb a recordiwyd yn ystod gweithgareddau ymarferol.

Ar gyfer Ll11 ac Ll12, rhaid i'r dysgwyr gynllunio a disgrifio cynhyrchu gwartheg eidion a defaid. Rhaid iddynt gynnwys dulliau o ddarparu porthiant a dŵr ar gyfer rhaglenni porthi penodol. Dylai'r dysgwyr nodi'r offer a ddefnyddir yn gyffredin a sut caiff ei weithredu a'i gynnal a'i gadw. Dylent hefyd gynnwys faint o le a argymhellir (lle y bo'n briodol), cyfraddau stocio a nifer yr anifeiliaid i bob porthwr.

Dylai'r rhaglenni porthi gynnwys da byw ar wahanol adegau eu twf a'u cynhyrchu fel a restrir yng nghynnwys yr uned. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer Ll11 fod yn gynllun cynhyrchu wedi'i gwblhau. Gallai'r tiwtor asesu Ll12 yn uniongyrchol yn ystod gweithgareddau ymarferol neu drwy gyflwyniadau'r dysgwyr, prawf adnabod porthiant neu boster yn egluro'r prosesau treulio ar gyfer cilgnowyr ac unstumogiaid. Ar gyfer Ll13, rhaid i'r dysgwyr ddarparu rhaglenni iechyd ar gyfer systemau cynhyrchu eidion, llaeth, moch a defaid. Gallai'r asesu ar gyfer Ll13 gysylltu â'r asesu ar gyfer Ll11 ac/neu Ll6 ac Ll7.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr egluro'r amrediad o systemau gorffennu a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer amrywiaeth o dda byw, a rhaid i hyn fod yn seiliedig ar y da byw y cyfeirir atynt yn Ll2. Gallai'r dystiolaeth gysylltu â'r dystiolaeth ar gyfer Ll2.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr egluro dull bridio ar gyfer un anifail da byw penodol. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Dylai'r dysgwyr gynnwys rheoli gwasanaeth effeithlon gan ddefnyddio ymhadu naturiol neu artiffisial, a sut i ofalu am y fenyw fridio yn ystod pob cam o'r gylchred fridio. Dylai'r dysgwyr hefyd gynnwys sut y gofelir am yr anifail newyddanedig. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf poster, cyflwyniad neu dystiolaeth ysgrifenedig a gallai fod yn gysylltiedig ag Ll5.

Mae T3 yn gofyn bod y dysgwyr yn esbonio mesurau bioddiogeledd ar leoliad fferm benodol. Dylai'r tiwtor nodi amgylchedd fferm priodol neu gytuno ar hyn trwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Gallai T3 gael ei asesu gan ddefnyddio cwestiynau byr, tystiolaeth ddarluniadol neu fideo o ymddygiad da byw.

Ar gyfer T4, dylai'r dysgwyr allu cwblhau cofnodion bridio sylfaenol yn gywir.

Ar gyfer T5, rhaid i'r dysgwyr egluro amseroldeb a thymoroldeb o leiaf ddwy system gynhyrchu da byw gan sicrhau cyflawni'r targedau a'r amserau. Dylai'r tiwtor nodi'r systemau neu gytuno ar hyn trwy drafod gyda'r dysgwyr. Gallai'r rhain fod yn seiliedig ar y systemau a ddefnyddiwyd yn Ll1. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr.

Dylai'r dysgwyr nodi'r amser delfrydol ar gyfer gwahanol gamau'r cynhyrchu a'r pwysau a enillwyd neu'r llaeth a gynhyrchwyd ar gyfer bob cam. Dylid cynnwys tasgau porthi, bridio a iechyd sylfaenol lle y bo'n briodol. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf poster, cyflwyniad neu dystiolaeth ysgrifenedig a gallai fod yn gysylltiedig ag Ll1.

Ar gyfer Rh1, mae angen i'r dysgwyr adolygu'r dewisiadau ar gyfer gwerthu a marchnata o leiaf ddwy rywogaeth stoc sef marchnadoedd da byw, pwysau marw, gwerthu ar gontract. Gallai'r dysgwyr lunio adroddiad i adolygu gwerth cymharol pob dull gwerthu.

Mae Rh2 yn gofyn bod y dysgwyr yn gwerthuso amrywiaeth o ddulliau bridio o ran lles anifeiliaid ac effeithiolrwydd. Dylid cynnwys cofnodion bridio blaenorol, y math o frîd, amcangyfrif o’r gwerthoedd bridio ac arsylwi gweledol fel tystiolaeth lle y bo'n briodol.

Ar gyfer Rh3, rhaid i'r dysgwyr gymharu gwahanol ofynion y farchnad a'r dylanwadau ar dargedau ac amseru ar gyfer systemau cynhyrchu a ddewiswyd. Dylai'r tiwtor nodi'r systemau neu gytuno ar hyn trwy drafod gyda'r dysgwyr. Gallai'r rhain fod yr un rhai a drafodwyd yn Ll1 neu T1. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Dylai'r dysgwyr ddangos dealltwriaeth o fanylebau'r farchnad, er enghraifft cyfansoddion llaeth, pwysau carcas, ffurfiad a chynnwys braster. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o'r manylebau marchnad derbyniol a pha gosbau neu fonysau sy'n gymwys o fod y tu hwnt iddynt.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1 | Systemau Cynhyrchu Ffermio | Dylech ddarparu crynodeb o amrywiaeth o systemau cynhyrchu da byw ar gyfer rhywun sy'n newydd i'r diwydiant ffermio. Byddwch (mewn grwpiau bychain) yn adolygu un system gynhyrchu benodol ac yn llunio ffeithlen fer yn trafod prif agweddau'r system.<br>Cynhyrchu 'adroddiad marchnad' yn dangos y prif ddulliau a ddefnyddir i werthu cynnyrch fferm a'r rheoliadau ansawdd sydd yn eu lle. Cynnig, ar gyfer system benodol, beth gallai ffermwr ei wneud i wella'r pris mae'n ei gael am ei gynnyrch. | Adroddiad ysgrifenedig a chyflwyniad grŵp.<br>Adroddiad ysgrifenedig. |
| Ll4, Ll5, Ll6, Ll11, T2, Rh2 | Paratoi ar gyfer Bridio Da Byw | Datblygu protocol bridio ar gyfer dysgwr newydd sy'n ymuno â'r grŵp.<br>Paratoi rhestr wirio o weithgareddau mae'n rhaid eu cyflawni cyn bridio anifeiliaid. Llunio poster yn dangos cylchredau atgenhedlu a rheoli hormonol.<br>Gan ddefnyddio gwybodaeth am fridiau o amrywiaeth o ffynonellau a da byw go iawn, dewis anifeiliaid ar gyfer eu bridio. Cyfiawnhau paru i fodloni amcanion penodol. | Adroddiad ysgrifenedig.<br>Rhestr wirio.<br>Poster. |
| Ll7, Ll11, Ll13, Rh3 | Rheoli Clefydau | Dylai pob dysgwr ddewis clefyd i'w archwilio a pharatoi ffeithlen yn dangos arwyddion, triniaethau a sut i'w atal. | Ffeithlen. |
| Ll8, Ll9, T5 | Gwaith Stoc Ymarferol | Cyflawni gwaith stoc cyffredin dros gyfnod o amser gydag amrywiaeth o dda byw | Dyddiadur gwaith.<br>Cofnod arsylwi. |

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll10, T3 | Awdit Lles | Adolygu uned fferm o dan deddfwriaeth lles anifeiliaid. Llunio adroddiad ysgrifenedig ar ganfyddiadau'r awdit a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. | Adroddiad ysgrifenedig.<br>Tystiolaeth fideo. |
| Ll12, T4 | Porthi Da Byw | Llunio poster yn dangos prif elfennau treuliad cilgnowyr ac unstumogiaid ac enghreifftiau o borthiant cyffredin a'r gwerthoedd maeth. Paratoi dogn i fodloni anghenion maeth ar wahanol gamau cynhyrchu (wedi'i greu â llaw neu â meddalwedd. | Poster.<br>Dogn syml. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| |
|---|
| **Lefel 2** |
| Cyflwyniad i Gynhyrchu Anifeiliaid Fferm |
| Cyflwyniad i Hwsmonaeth Anifeiliaid a Phlanhigion |
| **Lefel 3** |
| Elfen LP25.1 Rhoi triniaethau syml i dda byw<br>Elfen LP25.2 Cyflwyno gweithdrefnau hwsmona arferol<br>Elfen LP28.1 Sefydlu cynllun bridio gyr, ei roi ar waith a'i werthuso |
| Deall Bridio a Maeth Da Byw |
| Cynhyrchu Gwartheg Llaeth |
| Cynhyrchu Gwartheg Eidion |

## Adnoddau hanfodol

Bydd ar y dysgwyr angen mynediad i fentrau da byw digon mawr i'w galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol neu ymweld â chyfleusterau cysylltiedig â bridio, porthi a chynnal iechyd o fewn systemau cynhyrchu. Dylai'r holl unedau da byw hyn fodloni'r holl ofynion iechyd a diogelwch, cadw blychau cymorth cyntaf a meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwr priodol. Rhaid bod gan y dysgwyr fynediad i adnoddau llyfrgell a rhyngrwyd priodol er mwyn cyflawni ymchwil.

Dylai'r dysgwyr hefyd gael mynediad i offer porthi mecanyddol addas, a chyfleusterau pwyso a thrin anifeiliaid.

Ymhlith yr offer/deunyddiau gofynnol i gefnogi'r uned hon bydd cynnwys sawl set o gyfarpar tasgau stoc (er enghraifft nodwyddau, chwistrelli, gynau drensio, gweill cneifio, offer trimio traed, marcwyr stoc, tagiau clust a theclynnau tagio, tiwbiau stumog, hydwythyddion, cylchoedd rwber) ynghyd â chyfleusterau hylendid personol a chyfarpar amddiffyn personol addas.

Dylid storio'r offer a'r cynnyrch milfeddygol yn gywir a'u rhoi i'r dysgwyr o dan oruchwyliaeth. Dylai'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon fod yn gymwys ac yn brofiadol mewn hwsmonaeth da byw. Yn ddelfrydol, dylent feddu ar brofiad diwydiannol diweddar yn y sector cynhyrchu da byw neu ddangos tystiolaeth o gyswllt rheolaidd â'r diwydiant a/neu ddiweddaru technegol.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Gellir datblygu sgiliau ychwanegol a dysgu profiadol mewn lleoliad gwaith neu drwy ymweld â fferm. Rhaid i'r tiwtoriaid sicrhau bod y dysgwyr yn ddiogel, ac y defnyddir staff profiadol â gwiriadau diogelwch (DBS). Rhaid bod yr holl yswiriant priodol yn ei le a dylid cael caniatâd rhieni cyn pob ymweliad a phrofiad gwaith os yw'r dysgwyr o dan 18 oed. Rhaid sicrhau y defnyddir lleoliadau gwaith â safonau iechyd a diogelwch anifeiliaid uchel yn unig. Dylid cynnal ymweliadau monitro rheolaidd i sicrhau bod y gweithgareddau lleoliad gwaith yn cael eu dilyn yn gywir a bod y dysgwr yn ddiogel. Gallai siaradwyr gwadd megis maethegwyr, ffermwyr a chynrychiolwyr cwmnïau porthiant hefyd ychwanegu perthnasedd i'r pwnc ar gyfer y dysgwyr.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Allen D – *Planned Beef Production and Marketing, 3ydd Argraffiad* (Blackwell Science, 1990) ISBN 0632026111

Croston D a Pollott G – *Planned Sheep Production, 2il Argraffiad* (Blackwell Science, 1993) ISBN 0632035765

Soffe R – *The Agricultural Notebook, 2il Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 0632058293

Speedy A – *Sheep Production: Science into Practice* (Longman Higher Education, 1980) ISBN 0582455820

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.dairyco.org.uk | Dairy Co |
| www.dardni.gov.uk | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Gogledd Iwerddon |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.fwi.co.uk | Farmers Weekly Interactive |
| www.nationalbeefassociation.com | National Beef Association |
| www.ukagriculture.com | gwefan olygyddol ar-lein UK Agriculture gyda sylwebaeth ar ffermio, cadwraeth a materion cefn gwlad |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | nodi ac yn cyflwyno'r amrediad o systemau cynhyrchu sydd ar gael i ffermwyr da byw yn y Deyrnas Unedig |
| **Dysgwyr myfyriol** | argymell gwelliannau i amodau lles anifeiliaid |
| **Hunan-reolwyr** | cynhyrchu rhestr wirio ar gyfer paratoi anifeiliaid i'w bridio |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cymryd rhan mewn gweithgareddau tasg ymarferol stoc anifeiliaid |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i wahanol ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar arferion cynhyrchu da byw |
| **Meddylwyr creadigol** | datblygu syniadau am sut i gyflwyno ffeithlenni am glefydau anifeiliaid |
| **Dysgwyr myfyriol** | derbyn safbwyntiau gwahanol ar y gwahanol ddulliau cynhyrchu ar gyfer da byw fferm |
| **Gweithwyr tîm** | gweithio fel tîm wrth symud a chyflawni tasgau ymarferol gyda dosbarthiadau gwahanol o dda byw |
| **Hunan-reolwyr** | trefnu amser i sicrhau bod terfynau amser cyfleoedd asesu yn cael eu bodloni |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | sicrhau cyfranogiad digonol mewn tasgau ymarferol i ddatblygu amrediad llawn o sgiliau trin da byw |